

Y Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 2

BA Addysg 2A
ECAD5008

Darlithydd: Nia Wyn Evans

Darlith 2: 28ain o Ebrill, 2020

“Mae’r Gymraeg yn un o drysorau Cymru..... Ein huchelgais ni fel Llywodraeth Cymru yw gweld miliwn o bobl yn gallu mwynhau siarad a defnyddio’r Gymraeg erbyn 2050. Does dim dwywaith fod hon yn uchelgais heriol”

Rhagair Carwyn Jones AC (Prif Weinidog yn 2017) ac Alun Davies AC (Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes yn 2017)



Beth yw ein rôl ni?

- ▶ “... **y system addysg a hyfforddiant** yw’r prif ddull o greu siaradwyr Cymraeg newydd.”

(tud 31, Cymraeg 2050 Miliwn o Siaradwyr)



Heddiw, fe fyddwn ni'n ...

- ▶ trafod cynnwys ac arddull y gyfrol Dringo'r Wyddfa (Elin Meek);
- ▶ ystyried sut i ddefnyddio'r gyfrol fel sbardun wrth gynllunio gwers(i) iaith;
- ▶ ystyried: sut ydw i'n addysgu'r disgyblion?
- ▶ ystyried: beth ydw i'n addysgu i'r disgyblion?
- ▶ cynllunio gwers Gymraeg ar gyfer dosbarth CA2.

Trafodwch ...

Cynhesu



Yn fy marn i
....

Rydw i'n
credu

Rydw i'n
meddwl

Dydw i ddim
yn credu

Dydw i ddim
yn meddwl

Mae hyn yn
....

Pam?

Cytunaf /
Anghytunaf

Mae rhai yn
credu


Teimlaf ...





Trafodwch ...





Yr ateb yw ...

Yr Wyddfa

... ond, beth oedd y cwestiwn?

Creu amgylchedd sy'n gyfoethog o ran iaith

Dylai dysgwyr brofi ystod o brofiadau ieithyddol cyfoethog fel y gall eu sgiliau llafar, darllen ac ysgrifennu blethu drwy'i gilydd.

**Rhaglen Astudio ar gyfer Cymraeg,
Cyfnod Allweddol 2, 2015**

Dylid ystyried yn holistaidd y pedwar datganiad sy'n nodi'r hyn sy'n bwysig yn y Maes hwn. Golyga hyn y dylid archwilio gwahanol ieithoedd mewn perhynas â'i gilydd, yn ogystal â sgiliau gwranddo, siarad, darllen ac ysgrifennu. Golyga hyn hefyd y dylid ystyried dysgu am a thrwy lenyddiaeth fel rhywbeth sy'n cyfrannu at holl agweddau dysgu am ieithoedd. Mae'r datganiadau yn cefnogi a chadarnhau'i gilydd. Gyda'i gilydd maen nhw'n cyfrannu at wireddu pedwar diben y cwricwlwm.

Cwricwlwm i Gymru, 2020

Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd.

(Datganiad o'r hyn sy'n bwysig)

Mae llenyddiaeth yn ehangu gorwelion. Yn ei holl ffurfiau, gall ein hysbrydoli a'n cymell, gall ein helpu hefyd i ddysgu am iaith a chyfathrebu.

Bydd y Maes hwn yn cynnig profiadau llenyddol i ddysgwyr fydd yn ennyn eu diddordeb a'u dychymyg fel gwrandawyr, gwylwyr, darllenwyr, storiwyr a llenorion. Bydd y profiadau hyn yn eu cefnogi i werthfawrogi crefft llenorion a chrewyr yn ogystal â meithrin eu sgiliau creadigol eu hunain. Byddan nhw'n cael eu hannog i brofi ac ymateb i amrywiaeth o lenyddiaeth sy'n cynnig mewnwelediaid i ddiwylliant, pobl a hanes Cymru yn ogystal â'r byd ehangach. Trwy hyn, wrth i'w dealltwriaeth o'u credoau, diwylliannau a'u profiadau eu hunain a phobl eraill gynyddu, gall dysgwyr ddatblygu eu gallu i ddangos empathi. Yn ei dro, gall hyn gyfrannu at eu lles emosiynol a meddyliol. Gyda'i gilydd, nod y profiadau llenyddol hyn yw tanio dychymyg a chreadigrwydd dysgwyr a bod o gymorth i feithrin cariad gydol oes tuag at lenyddiaeth.

(tudalen 133, Cwricwlwm i Gymru 2022)



Defnyddio llenyddiaeth fel sbardun







Pethau i'w hystyried

- ▶ Ydy'r nofel / stori / testun yn addas i'r oed / dosbarth dan sylw?
- ▶ Ydy'r nofel / stori / testun yn cynnig digon o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau iaith?
- ▶ Ydy'r nofel / stori / testun yn addas i'r thema?
- ▶ A oes modd datblygu sgiliau trawsgwricwlaidd drwy ddefnyddio'r nofel / stori / testun?
- ▶ Ydy'r nofel / stori / testun wedi ei ysgrifennu'n dda?

Beth am ystyried

- ▶ Ydy eich dewis yn Gymreig ei naws?

Llenyddiaeth ... beth sydd ar gael?



Parhau i ddysgu ...

Dewch o hyd i gopi o Dringo'r Wyddfa gan Elin Meek. Darllenwch y gyfrol.


Ystyriwch:

1. Pa fath o destun sydd yma?
2. Mae'r gyfrol yn rhan o gyfres. Ydy teitl y gyfres yn addas? Pam?
3. Gan ddefnyddio'r gyfrol hon fel sbardun i waith dosbarth, dechreuwch feddwl am dasgau addas fyddai'n datblygu sgiliau....

- a. llafar
- b. gwrando
- c. darllen

ch. ysgrifennu


... disgyblion CA2.



Ydych chi wedi bod yn meddwl?

1. Pa fath o destun sydd yma?

Stori fer



Testun ffeithiol -

ar ffurf paragraffau ffeithiol, pwyntiau bwled, ffotograffau (ddoe a heddiw) a gweithiau Celf

2. Ydy teitl y gyfres yn addas? Pam?

3. Beth yw manteision cyfrol o'r fath?






Cyn darllen, sut mae ennyn eu diddordeb?



Mae sachau stori yn cael eu defnyddio yn effeithiol iawn yn y Cyfnod Sylfaen.

A ydy hi'n bosibl i ni barhau â'r arfer da hwn yn CA2?

Cyn darllen, sut mae ennyn eu diddordeb?



Cyn darllen, sut mae ennyn eu diddordeb?

Tasg grwp:

Beth fydddech chi'n eu pacio yn eich bag cefn i fynd gyda chi ar daith gerdded i gopa'r Wyddfa?
Gallwch fynd ag wyth peth gyda chi.



Ystyriwch:

Beth yw pwrpas tasg fel hyn?

Beth yw effaith tasg fel hyn?


Pam bod darllen i'r disgyblion yn bwysig?



- ▶ Modelu beth yw darllen da. (Mae'n sgîl sy'n rhaid i chi ei hymarfer)
- ▶ Cyfle i gyflwyno a dysgu geiriau / ymadroddion / idiomau newydd.
- ▶ Ffordd dda o ddatblygu sgiliau llafaredd.
- ▶ Ffordd dda o ddatblygu sgiliau gwrando.
- ▶ Ffordd dda o drafod a datblygu syniadau newydd.
- ▶ Ffordd dda o gyflwyno testunau newydd (o bob math).
- ▶ Cyfle da i feithrin diddordeb a chariad ein disgyblion tuag at lenyddiaeth.

Dewch i ddarllen ...

1. Cyflwyno'r cysyniad o "sach stori".
2. Trafod y clawr:
 - Beth fedrwch chi weld?
 - Cyflwyno geirfa newydd (efallai enwau Cymraeg am enwau Saesneg)
 - Pwy fydd y cymeriadau?
 - Beth yw'r teitl?
 - Pwy yw'r awdur?
3. Datblygu sgiliau meddwl ehangach:
 - Pwy, yn eich barn chi, yw Wendi Wlanog?
 - Beth yw Lili'r Wyddfa?
 - Beth yw'r Wyddfa?
 - Wrth ddarllen ymlaen, pa gwestiynau hoffech chi gael atebion iddyn nhw?
 - Beth ydych chi'n meddwl fydd yn digwydd yn y stori hon?
 - Ydych chi'n meddwl eich bod chi'n mynd i fwynhau? Pam?



Dyma sleid baratoais ar gyfer myfyrwyr BA1 gan ystyried darllen stori yn y Cyfnod Sylfaen.

Ydy hi'n bosibl defnyddio'r un syniadau gyda disgyblion Cyfnod Allweddol 2?

Dewch i ddarllen ...


1. Cyflwyno'r cysyniad o "sach stori".

2. Trafod y clawr:

- Beth fedrwch chi weld?
- Cyflwyno geirfa newydd (efallai enwau Cymraeg am enwau Saesneg)
- Pwy fydd y cymeriadau?
- Beth yw'r teitl?
- Pwy yw'r awdur?
- Pa fath o naws mae'r clawr yn ei chreu?
- Ydy'r clawr yn apelgar? Pam?
- Beth yw ystyr "Cyfres Pen-i-waered"? Ydych chi'n hoffi'r syniad yma? Pam?

3. Datblygu sgiliau meddwl ehangach:

- Pwy, yn eich barn chi, yw'r prif gymeriad?
- Beth yw'r Wyddfa?
- Wrth ddarllen ymlaen, pa gwestiynau hoffech chi gael atebion iddyn nhw?
- Beth ydych chi'n meddwl fydd yn digwydd yn y stori hon?
- Ydych chi'n meddwl eich bod chi'n mynd i fwynhau? Pam?



Wrth drafod, defnyddiwch

ffuglen

ffeithiol

clawr blaen

clawr cefn

broliant

awdur(es)

cymeriadau

teitl

atalnodi

stori

cynnwys

lleoliad

digwyddiadau

trobwynt

idiom(au)

disgrifiad

neges

perthynas

ffaith

llun

ffotograff

gwybodaeth

Beth yw ystyr y geiriau a'r ymadroddion canlynol?

erchwyn

tirlun

tennyn

yn awchu

copa / copaon

dan ei sang

ffolineb llwyr

serth

maldod

llamu

hollwybodus

ling di long

Beth yw ystyr y geiriau a'r ymadroddion canlynol?

ffroeni

sarn

chwyddo

pwylllog

rhyddhad

cydbwysedd

yn ddiamynedd

anafu

bron â sythu

yn gegrwth

y gwasanaethau brys

i grombil


Datblygu sgiliau llafaredd ...

- ▶ Gwaith pâr
- ▶ Cyflwyniad unigol
- ▶ Gwaith grŵp: datrys problem / mynegi barn / trafod a dod i benderfyniad
- ▶ Adrodd yn ôl (yn dilyn trafodaeth grŵp, yn dilyn tasg unigol / gwaith pâr)

Sut mae defnyddio'r gyfrol i ddatblygu sgiliau LLAFAREDD?

Tasg sy'n cyflwyno gwybodaeth, e.e.

- Yr Wyddfa
- Parc Cenedlaethol Eryri
- Achubwyr Mynydd



Tasg sy'n mynegi barn, e.e.

- Mae gormod o gerddwyr yn ymweld â'r Wyddfa ac yn cael effaith ar lwybrau a byd natur y cynefin unigryw hwn.

Tasg sy'n trafod, e.e.

- trafod y stori
- cymharu'r stori gyda'r testun ffeithiol
- cymharu'r stori gyda chwedl

DYMA FRENIN!

1. Yn gyntaf, hoffwn ddweud ...

2. Yn ail, roedd e'n ...

3. Hefyd, ...

4. Yn ogystal â hyn, ...

5. Yn olaf, ...

Ydych chi'n cofio defnyddio'r model llafar yma wrth gyflwyno gwybodaeth am T Llew Jones?

Gellir defnyddio union yr un model wrth gyflwyno gwybodaeth ar lafar am Yr Wyddfa, am Barc Cenedlaethol Eryri neu'r Achubwyr Mynydd.

Ar ôl darllen ...

Tasg grwp:

Beth fydddech chi'n eu pacio yn eich bag cefn i fynd gyda chi ar daith gerdded i gopa'r Wyddfa?
Gallwch fynd ag wyth peth gyda chi.



Ystyriwch:

Beth yw pwrpas tasg fel hyn?

Beth yw effaith tasg fel hyn?

Pam "ail-ymweld" â'r dasg?

Edrych ar ddarllen ...

Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 2 Cymraeg



Llinyn: Darllen

Ystod o brofiadau

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr:

- ddarllen ystod eang o destunau di-dor a phytiog, mewn fformat print neu mewn ffurf ddeinamig, fel sail i'w hymatebion ar lafar ac yn ysgrifenedig. Dylai'r rhain gynnwys:
 - testunau cyflawn a detholiadau
 - testunau gwybodaeth a chyfeiriol
 - barddoniaeth a rhyddiaith draddodiadol a chyfoes
 - nofelau graffig a llyfrau llun
 - drama, gan gynnwys perfformiadau drama
 - testunau sy'n ymwneud â phynciau heriol sy'n ehangu'r gorwelion, sy'n datblygu'r gallu i ymresymu
 - testunau sy'n ymestyn dealltwriaeth ddeallusol, foesol ac emosiynol dysgwyr
 - testunau sy'n cynnwys ystod o strwythurau, ffurfiau, pwrpasau, sy'n apelio at wahanol gynulleidfaoedd a dyfeisiau cyflwyno gwahanol
 - testunau sy'n gyfoethog o ran safon ac amrywiaeth ieithyddol
 - testunau sy'n adlewyrchu dewis darllen personol dysgwyr
 - testunau ag iddynt amrywiaeth o gyd-destunau cymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol
 - testunau sy'n amrywio o ran tôn, e.e. *testunau sy'n llawn hiwmor*, *testunau sy'n cynnwys parodi*, *testunau sy'n chwarae ar eiriau*
 - testunau sy'n cynnig her
 - testunau sy'n dangos effaith technoleg ar yr iaith
- darllen fel unigolyn a chydag eraill, e.e. *darllen mewn paru*, *darllen mewn grŵp dan arweiniad*, *darllen ar y cyd*
- darllen at ddibenion gwahanol, e.e. *er mwynhad personol*, *i adalw gwybodaeth*, *i gynhoi a chyfod gwybodaeth allweddol*, *i ddehongli a chyfuno gwybodaeth*, *i ddilysu gwybodaeth*, *i gyfoethogi dealltwriaeth drwy ail-ddarllen*, *i adnabod dyfeisiau iaith a ddefnyddir gan yr awdur*, *i ddadansoddi pwrpas ac i dreiddio dan groen testun am ystyr*
- datblygu'r iaith a'r derminoleg briodol i allu trafod, ystyried a gwerthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eraill, e.e. *awduron*, *beirdd*, *eu cyfoedion*, mewn testunau ysgrifenedig a deinamig.

Dylai dysgwyr brofi ystod o brofiadau ieithyddol cyfoethog fel y gall eu sgiliau llafar, darllen ac ysgrifennu blethu â'i gilydd i'w galluogi i ddod yn ddarllenwyr brwdfrydig, annibynnol a meddylgar.

Mae'r Rhaglenni Astudio Cymraeg a'r Saesneg wedi eu datblygu law yn llaw. Gall dysgwyr ddefnyddio sgiliau trawsieithu a sgiliau deulol i ddatblygu'r ddwy iaith gan sicrhau bod cryfder mewn un iaith yn atgyfnerthu'r llall.

Allwedd

O fewn y tabl, bydd testun o'r FfLIRh yn ymddangos fel testun normal. Bydd y sgiliau sydd yn benodol i'r Rhaglen Astudio Cymraeg yn cael eu dynodi gan brint trwm. Bydd y sgiliau hyn hefyd yn cael eu dynodi gan yr eicon hwn.

Sgil rhaglen astudio ❖ Mae'r sgiliau hyn, ar y cyd â datganiadau'r FfLIRh, yn ffurfio'r Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 2 Cymraeg.

D.S.

Er mwyn bod yn hygyrch ac yn ddarllenadwy, dyluniwyd y tablau hyn i'w hargraffu ar faint A3.


Sut mae defnyddio'r gyfrol i ddatblygu sgiliau DARLLEN?

Darllen testunau ffeithiol amrywiol er mwyn cyflwyno gwybodaeth e.e.

- Yr Wyddfa
- Parc Cenedlaethol Eryri
- Achubwyr Mynydd

Darllen a deall, e.e.

- Tasgau darllen sy'n gofyn am ddealltwriaeth o'r testun(au). Cofier bod angen sicrhau HER!



Tasg sy'n mynegi barn, e.e.

- Adolygu'r gyfrol


Cymharu, e.e.

- cymharu'r stori gyda'r testun ffeithiol gan drafod a chymharu'r nodweddion ieithyddol.

Sut mae defnyddio'r gyfrol i ddatblygu sgiliau YSGRIFENNU?

Ysgrifennu ffeithiol, e.e.

- Adroddiad ffeithiol / Pamffled gwybodaeth
- Perswâd, e.e. Poster yn annog diogelwch
- Trafodaeth, e.e. A oes gormod o bobl yn cerdded yr Wyddfa?



Ysgrifennu ceadigol, e.e.

- Cerdd
- Dyddiadur un o'r cymeriadau
- Ymson un o'r cymeriadau
- Disgrifiad o'r Wyddfa
- Llythyr personol
- Sgript rhwng y cymeriadau

Bydd athro da yn ystyried y canlynol wrth gynllunio gwers iaith


- ▶ Beth mae'r disgyblion eisoes yn ei wybod?
- ▶ Beth ydw i am iddyn nhw ddysgu heddiw?
- ▶ Beth fydd fy rôl i yn y wers?
- ▶ Beth fydd rôl y cynorthwyydd dosbarth?
- ▶ A oes cyfle i ddatbygu sgîl arall yn y wers / uned hon? (e.e.rhifedd / digidol / corfforol / cymdeithasol?)
- ▶ Pa ddull(iau) o addysgu sy'n mynd i fod yr un / y rhai mwyaf effeithiol yn y wers hon?
- ▶ Sut byddaf i'n gwybod bod y disgyblion wedi deall ac wedi dysgu?
- ▶ Beth sy'n mynd i ddigwydd yn y wers nesaf?

Fundamentally, the most powerful way of thinking about a teacher's role is for teachers to see themselves as *evaluators* of their effect on students....

John Hattie (Tud. 18, *Visible Learning for Teachers*)

Sut ydw i'n gwybod beth sydd angen addysgu i'r disgyblion?

- Cofiwch fod POB amcan dysgu / nod y wers yn dod o'r Rhaglen Astudio (neu o'r Maes Dysgu a Phrofiad pan ddaw Cwricwlwm i Gymru i rym).



CYNLLUNIO GWERS:

Pa bethau sy'n rhaid eu hystyried?

Pa ddosbarth?	Blwyddyn 5
Faint o ddisgyblion?	24
Sawl grŵp gallu?	4
Oes cynorthwyydd dosbarth? Sawl un?	1 (Miss Nia) + yr athrawes ddosbarth (Mrs Evans)
Beth yw'r thema?	Tua'r copa
Beth yw'r dasg?	Ysgrifennu sgript rhwng y cymeriadau (gan ddefnyddio digwyddiadau'r stori fer fel cynnwys). Gellir cael golygfeydd gwahanol, e.e. Golygfa 1 / Golygfa 2

Cynlluniwch y wers Gymraeg ar gyfer dosbarth Blwyddyn 5.

Sut fydddech yn gwahaniaethu ar gyfer y 4 grwp gallu?

CYNLLUNIO GWERS

Amser	Gweithgareddau/Methodoleg/Cysyniadau Allweddol (Rôl yr Athro – gan gynnwys pwyntiau dysgu allweddol, strategaethau gwahaniaethu a chwestiynau allweddol)	Tasgau Disgyblion (Rôl disgyblion – gan gynnwys strategaethau gwahaniaethu, ymgysylltu ag asesu ffurfiannol a gwaith cartref)	Adnoddau (Gan gynnwys gofyniad lechyd a Diogelwch)
Cyfnod agoriadol (gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol)			
Addysgu a Dysgu Craidd			
Sesiwn Gloi			

Ar ôl y wers, fe fydd athro da yn ystyried sut aeth pethau

- ▶ Beth ddysgodd y disgyblion heddiw?
- ▶ Sut ymateb gawsoch chi gan y disgyblion?
- ▶ Sut oeddwn i'n gwybod bod y disgyblion wedi deall ac wedi dysgu?
- ▶ Beth oedd fy rôl i yn y wers?
- ▶ Beth oedd rôl y cynorthwyydd dosbarth?
- ▶ A oedd fy newis o ddull(iau) addysgu yr un / y rhai mwyaf effeithiol ar gyfer y wers hon?
- ▶ Beth baswn i'n newid?
- ▶ Beth sy'n mynd i ddigwydd yn y wers / y gwersi nesaf?

There is an emphasis on planning, being clear about the purposes and out-comes of lessons (both by teachers and students), having expectations or targets of what the impact should be, and then continually evaluating the impact of the teacher on the learner.

John Hattie (Tud. 39, *Visible Learning for Teachers*)

Diolch a

